

Effaith Covid-19 ar y sectorau amaethyddiaeth a physgodfeydd, cyflenwi bwyd, lles anifeiliaid, newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd

GAIR AM CGGC

1. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r corff aelodaeth genedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw dyfodol lle mae'r trydydd sector a gwirfoddoli yn ffynnu ledled Cymru, gan wella llesiant i bawb. Ein cenhadaeth yw bod yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol drwy gysylltu, galluogi a dylanwadu.
2. Rydym yn falch o'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor. Rydym yn ddiolchgar i'r mudiadau a'r unigolion sydd wedi cyfrannu tystiolaeth at ein hymateb, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar feysydd newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd.
3. Mae [Porth Data'r Trydydd Sector](#) yn dweud wrthym fod grwpiau amgylcheddol yn cynrychioli 5.4% o weithgarwch y sector gwirfoddol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae llawer o fudiadau'r sector gwirfoddol hefyd yn cyflawni gwelliannau amgylcheddol ochr yn ochr â'u prif nod.

EFFAITH COVID-19 AR YR AMGYLCHEDD AC AR FUDIADAU AMGYLCHEDDOL

4. Yn ystod y cyfyngiadau symud, roedd CGGC wedi cynnal cyfres o ddiwyddiadau o dan faner #DyfodolGwahanolCymru, er mwyn edrych ar effaith y ferïws ar nifer o themâu, gan gynnwys yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd. Yn ystod ein sesiwn amgylcheddol, roedd nifer o fudiadau wedi sôn bod y cyfyngiadau symud wedi arwain at ostyngiad sylweddol

mewn allyriadau carbon.

5. Mae'r argyfwng hefyd wedi golygu bod unigolion wedi ailgysylltu â'u cymunedau mewn ffordd sydd o fudd i'r amgylchedd, gan gynnwys siopa'n lleol ac ymgysylltu â chynlluniau tyfu yn y gymuned.
6. Fodd bynnag, er bod yr argyfwng wedi cael effeithiau manteisiol fel y rheini a nodir uchod, mae rhoi staff awdurdodau lleol ar ffyrlo wedi arwain at effeithiau negyddol - er enghraifft, dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru na fu modd cynnal arolygon ar gasglu sbwriel a thipio anghyfreithlon, sydd wedi golygu bod bwlch mewn data.
7. Yn yr un modd â'r rhan fwyaf o fudiadau'r trydydd sector mae mudiadau amgylcheddol wedi dioddef colledion ariannol difrifol yn ystod y feirws. Mae hyn wedi amharu ar eu gwaith hanfodol a bydd yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol.
8. Roedd wyth o grwpiau amgylcheddol wedi cyflwyno cais i Gronfa Cadernid y Trydydd Sector adeg ysgrifennu hwn, gan wneud cais gyda'i gilydd am £249,591. Adeg ysgrifennu hwn, roedd cyfanswm o £183,810 wedi cael ei ddyfarnu i bedwar o'r mudiadau hyn. Roedd y panel yn dal wrthi'n ystyried y ceisiadau eraill.
9. Dylid dadansoddi effeithiau'r argyfwng ar y sector amgylcheddol, gan gynnwys Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, er mwyn mesur ei gadernid a'r effaith ar wirfoddolwyr. Y gwirfoddolwyr hyn sy'n cyflawni'r gwaith ar lawr gwlad sydd o fydd i bob un ohonom.
10. Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymuno â'r Rhwydwaith Economeg Llesiant ar gyfer Llywodraeth ac rydym yn gobeithio y bydd hyn yn mynd â Nodau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol rhagddynt ar yr un pryd â helpu adferiad y wlad yn dilyn y pandemig.
11. Mae trafodaethau'n parhau ynghylch sefydlu Gwasanaeth Natur Cenedlaethol yng Nghymru er mwyn ymateb i'r argyfwng. Dylid edrych ar y syniad hwn ymhellach drwy ddeialog ar draws sectorau.

BETH YW'R CAMAU NESAF?

CREU AMGYLCHEDD POLISI'AU ADDAS

12. Mae'r dirwasgiad sydd ar ddod yn golygu bod perygl o beidio â manteisio ar yr effaith gadarnhaol a fu ar yr amgylchedd oherwydd y gweithredu cymunedol a welwyd yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae perygl y gellid cyflwyno ysgogiadau economaidd a gaiff effaith negyddol ar newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd yn lle hynny. Mae'n rhaid i holl benderfyniadau Llywodraeth Cymru ynghylch cynlluniau a pholisiau o hyn ymlaen fod yn seiliedig ar bryderon amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd ac, i'r graddau sy'n bosibl, rhaid

iddynt geisio cynnal a hybu'r arferion newydd cadarnhaol a welwyd mewn cymunedau a gan unigolion yn ystod y cyfyngiadau symud. Dylai geisio creu amgylchedd cyllido a pholisïau sy'n caniatáu i'r sector chwarae ei ran i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd drwy'r ymateb i'r pandemig.

13. Bydd rhwydwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn gallu cysylltu ymatebion cymunedol llawr gwlad i'r ymateb polisi cenedlaethol, gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo. Mae angen creu'r gofod iawn er mwyn i fudiadau allu rhannu profiadau a'r arfer gorau sydd wedi dod i'r fei neu sydd yn dod i'r fei o'r pandemig.
14. Mae Cytun a Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru wedi cydweithio ar ymchwil i CGGC o'r enw [*Ymateb i argyfwng yr hinsawdd*](#). Er bod y gwaith hwn wedi dechrau cyn Covid, mae llawer o'r hyn sydd wedi cael ei ddysgu ohono'n berthnasol wrth i Gymru geisio adfer ar ôl yr argyfwng.
15. Dylid cefnogi'r sector i gasglu ac i ddatblygu tystiolaeth well sy'n ymwneud â gweithredu ar yr hinsawdd a'r amgylchedd er mwyn helpu mudiadau i benderfynu pa gamau dylent eu cymryd. Mae Prosiect Llythrennedd Carbon Cynnal Cymru a Phrydain Ddi-Garbon y Ganolfan Dechnoleg Amgen wedi datblygu offer i helpu mudiadau gyda hyn.
16. Mae'r ymchwil gan Cytun a Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru yn dangos nad oes digon o arbenigedd economeg yn y sector gwirfoddol yng Nghymru. Rhaid uwchsgilio'r sector er mwyn helpu mudiadau i ddeall effaith eu penderfyniadau economaidd ar yr amgylchedd ac er mwyn iddynt ymwneud yn llawn â'r Economi Sylfaenol.
17. Mae'n rhaid i ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd fod wrth wraidd yr holl feddwl a phenderfyniadau sy'n ymwneud â'r Economi Sylfaenol. Mae'r Economi Sylfaenol yn gallu gwneud cyfraniad enfawr at ddyfodol carbon isel, yn enwedig o ran cyflenwi bwyd a chynhyrchu ynni'n lleol. Fodd bynnag, nid oes cysylltiad penodol wedi cael ei wneud rhwng yr Economi Sylfaenol a newid yn yr hinsawdd. Mae'r sector gwirfoddol mewn sefyllfa dda i greu'r cysylltiad hwn, gan adeiladu ar Fodel Cysyniadol Amgylcheddol ac Economi Sylfaenol WWF Cymru.
18. Mae'n rhaid i'r Gynghrair Datblygu Cynaliadwy geisio bod yn gryfach, gan weithio'n agosach ar draws y pedair gwlad, gyda'r byd academaidd, llywodraeth, busnesau, undebau llafur, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r sector cyhoeddus ar fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ar yr un pryd â sicrhau bod pobl o bob cefndir yn cael llais.
19. Mae gwaith Llywodraeth Cymru ar yr Economi Sylfaenol, yr economi garbon isel, datgarboneiddio'r sector cyhoeddus a'r Contract Economaidd yn rhoi fframwaith ar gyfer mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Rhaid rhoi'r strategaethau hyn ar waith yn effeithiol, ond mae'n rhaid i hyn gael ei gydlynu a'i gyd-gynhyrchu gyda'r holl randdeiliaid.
20. Rydym yn falch bod y sector gwirfoddol yn cael ei annog i gyflwyno cynigion i'r Panel Adferiad Gwyrdd sydd wedi cael ei gynnull gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

CYHOEDDI RHAGOR O GANLLAWIAU WRTH I'R CYFYNGIADAU SYMUD GAEL EU LLACIO

21. Wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio mae peryg y bydd allyriadau'n cynyddu eto wrth i bobl ddefnyddio rhagor ar eu ceir. Dylai Llywodraeth Cymru geisio mynd i'r afael â hyn drwy hyrwyddo'r Ddeddf Teithio Llesol ar draws Cymru a chwilio am ragor o gyfleoedd i'w wreiddio mewn arferion cyfredol.
22. Dylai cymunedau hefyd gael canllawiau newydd ar drefnu ymgyrchoedd glanhau traethau i grwpiau gwirfoddol, gan fod llacio'r cyfyngiadau symud wedi arwain at gynnydd mewn pobl ac mewn sbwriel ar ein glannau.
23. Gyda golwg ar lygredd, mae Ail-lenwi wedi tynnu sylw at gynnydd diweddar yn nifer y cynwysyddion plastig untro sy'n cael eu defnyddio yn y sector bwyd, gan gynnwys bagiau bwyd tecawê, bagiau plastig ar gyfer danfon neges o'r archfarchnadoedd a siopau coffi'n gwrthod derbyn cwpanau coffi mae modd eu hailddefnyddio oherwydd pryderon am hylendid ynghylch cynwysyddion mae modd eu hail-lenwi. Hefyd, mae cyfarpar diogelu personol fel masgiau wedi cael eu gweld fel sbwriel mewn parciau ac ar strydoedd. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i'r sector bwyd ac i'r cyhoedd am yr angen i barhau i ddefnyddio cynwysyddion mae modd eu hailddefnyddio er mwyn defnyddio llai o blastig.
24. Dylid cefnogi cymunedau i ddechrau neu i barhau gweithio ar fentrau lleol, fel prosiectau tyfu bwyd a chynlluniau ynni cymunedol, sy'n gallu lleihau allyriadau a thlodi bwyd ac sydd hefyd yn gallu ymgysylltu pobl sydd wedi bod yn unig neu'n ynysig yn gymdeithasol. Mae mentrau sy'n seiliedig ar le yn gallu bod yn allweddol yn yr agenda lleoleiddio ac adferiad cymunedol yn dilyn yr argyfwng.

CYNNWYS CYMUNEDAU YN YR ADFERIAD

25. Os bydd gofod swyddfa'n wag ar ôl y cynnydd yn y nifer sy'n gweithio gartref, ceir cyfleoedd i ddefnyddio'r gofod at ddibenion eraill sy'n cyflawni manteision iechyd a bioamrywiaeth i gymunedau lleol.
26. Mae angen gweithio i ymgysylltu ag arweinwyr cymunedol sy'n dod i'r amlwg mewn newid yn yr hinsawdd a chynnal ymateb y gymuned. Gyda chefnogaeth gan y llywodraeth a'r sector cyhoeddus mae'r sector mewn sefyllfa dda i wneud hyn. Mae gan y Partneriaethau Natur Lleol ran i'w chwarae hefyd drwy ymgysylltu arweinwyr a chydlynu a chefnogi gweithgareddau gwirfoddolwyr sy'n canolbwyntio ar natur. Bydd yr holl weithgareddau hyn yn cyfrannu at synnwyr o le cymunedau. Bydd balchder bro yn arwain at gymunedau sy'n fwy ymwybodol o'r amgylchedd, fel y nodir yn ein hadroddiad [Grymuso Cymunedau](#). Mae'r cysyniad o [Filltir Sgwâr](#) yn arwydd pellach o'r berthynas sydd gan bobl â'u hamgylchedd cyfagos ac mae balchder bro yn gallu creu synnwyr o berthyn a chymuned ac amgylchedd braf i bawb.

BUDDSODDI MEWN SWYDDI

27. Rydym yn ategu cais Cyswllt Amgylchedd Cymru am fuddsoddiad mewn swyddi gwyrdd a glas. Mae'r rhain yn swyddi sydd â rhan i'w chwarae mewn adfer, diogelu a chynnal yr amgylchedd, fel cadwraeth natur, rheoli tir a thwristiaeth gynaliadwy, ac maen nhw'n hanfodol er mwyn sicrhau adferiad gwyrdd a chyfiawn. Fodd bynnag, dylid cael llwybrau gyrfa penodol ar gyfer y rhain a dylid talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

PARATOI AM BREXIT

28. Mae nifer o bryderon amgylcheddol sy'n ymwneud â Brexit, gan gynnwys posibilrwydd colli rheoliadau'r UE sydd ag effaith gadarnhaol ar fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd; posibilrwydd colli mynediad at Gynllun Masnachu Carbon yr UE; colli ffynhonnell o gyllid ar gyfer gweithredu amgylcheddol; gostyngiad posibl mewn masnach ryngwladol a cholli ei fanteision cadarnhaol, fel lleihau tlodi byd-eang, a'r peryg y bydd y DU yn tynnu'n ôl o ymdrechion rhyngwladol eraill. Mae hi'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn cael deialog adeiladol gyda Llywodraeth y DU ar y materion hyn wrth i ddeddfwriaeth ar ôl Brexit gael ei datblygu, er mwyn lleihau'r effaith negyddol a gwella unrhyw effaith gadarnhaol i Gymru.

CADERNID Y SECTOR

29. Mae mudiadau amgylcheddol, y mae'r argyfwng eisoes wedi cael effaith negyddol ar eu hincwm, yn parhau i wynebu problemau gyda phrif gynlluniau grant amgylcheddol Llywodraeth Cymru – y Cynllun Grant Adnoddau Naturiol a Llesiant a'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy, yn ogystal â gweinyddu Cronfa Pysgodfeydd Morol Ewrop. Mae problemau'n cynnwys oedi gyda thaliadau a'i bod hi'n anodd cael gafael ar swyddogion. Mae nifer o fudiadau'n dal i ddisgwyl am daliad ar gyfer gwaith sydd wedi cael ei gwblhau. Mae hi'n hanfodol bod y taliadau hyn yn cael eu gwneud yn gyflym er mwyn helpu'r mudiadau hyn i oroesi. Mae grŵp sector gwirfoddol yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig eisoes wedi cynnal trafodaethau gyda Gweinidog yr Amgylchedd am y materion hyn.

30. Bydd toriadau i gyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru, oherwydd Covid-19, yn cael effaith negyddol ar ei waith a'i allu i gefnogi gwaith y sector gwirfoddol.

TRAFODAETH

31. Bydd CGGC yn falch o drafod y pwyntiau hyn, neu unrhyw bwyntiau eraill yng nghyswllt yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad, â swyddogion, pwyllgorau neu'r Gweinidogion ar gais.

David Cook

Swyddog Polisi, CGGC

dcook@wcva.cymru

Awst 2020